

Llawfeddygaeth Cyweirio Sffincter yr Anws

Pam ydym ni'n ymgymryd â'r driniaeth hon?

- Gellir ymgymryd â'r llawdriniaeth hon oherwydd sawl rheswm, ac un o'r rhesymau hynny yw gwella anymataliaeth ysgarthol yn sgil difrod i sffincter yr anws, y cylch o gyhyr sy'n rheoli ysgarthu yn y pen ôl. Neu, gwneir hynny weithiau i ailadeiladu'r perinëwm, sef y croen rhwng agoriad y wain a'r anws.
- Esgor ar blentyn yw'r achos mwyaf cyffredin, hyd yn oed os na fydd anymataliaeth yn ymddangos tan flynyddoedd yn ddiweddarach.
- Pan fydd profion yn canfod bod cyhyr sffincter eich anws wedi'i ddifrodi neu'n wan, a byddwch yn cael trafferth rheoli'ch coluddion, efallai y cynigir y llawdriniaeth hon.
- Mae'r broses i benderfynu a ydych chi'n addas yn cynnwys profion ac archwiliadau arbenigol ychwanegol i benderfynu a oes bwlch pendant yng nghyhyr sffincter eich rhefr, ac a yw'r nerfau yn cael cyflenwad da o waed fel bod y cyhyr yn dal i weithio.
- Os mai na fydd yr ateb i'r cwestiynau uchod, efallai y caiff triniaethau eraill eu hystyried.

Beth yn union yw'r driniaeth?

- Ymgymerir â'r llawdriniaeth drwy'r perinëwm (y croen rhwng y wain a'r anws) ac mae'n cynnwys gorgyffwrdd â'r cyhyr sydd wedi'i ddifrodi i greu cylch cyflawn o gyhyr o amgylch yr anws.
- Ymgymerir â'r llawdriniaeth o dan anesthetig cyffredinol a bydd yn para awr neu ddwy.
- Yn ystod y llawdriniaeth, gwneir toriad rhwng y wain a'r anws, a bydd unrhyw gyhyr sydd wedi difrodi yn cael ei wahanu oddi wrth unrhyw feinwe craith. Yna, caiff

y meinweoedd iach eu gorgyffwrdd, i greu cylch, a chaiff y cylch ei gynnal â phwythau. Defnyddir pwythau i gau'r clwyf yn eich croen.

- Weithiau, gellir cyweirio cyhyrau eraill sydd wedi'u difrodi yn yr un lle.
- Bydd unrhyw bwythau a ddefnyddir yn rhai toddadwy, ond weithiau, efallai na chaeir y clwyf, a bydd eich llawfeddyg yn trafod hynny â chi.
- Gan amlaf, efallai y cewch stoma dros dro – bydd hynny'n golygu dod â rhan o'ch coluddyn allan trwy dwll yn eich abdomen. Bydd hynny'n dargyfeirio ysgarthion oddi wrth eich anws am 2-3 mis i ganiatáu i'ch clwyf wella. Trafodir hyn â chi ymlaen llaw, a byddwch yn cael cyfle i gwrdd â nyrs stoma arbenigol os argymhellir hynny.

Cyn y broses

- Mae'n debyg y dewch i'r ysbyty ar fore'r driniaeth a byddwch yn cael profion gwaed, os na fyddwch eisoes wedi cael y profion hynny.
- Byddwch yn ateb cwestiynau am eich iechyd cyffredinol gan staff meddygol a gallwch ofyn unrhyw gwestiynau y dymunwch eu gofyn am y llawdriniaeth.
- Byddwch yn cyfarfod â'r tîm llawfeddygol a'r anesthetidd i lenwi ffurflen ganiatâd ac i drafod unrhyw gwestiynau ychwanegol cyn y driniaeth.
- Byddwch fel arfer yn cael enema neu sylwedd i baratoi'r coluddyn cyn y llawdriniaeth er mwyn clirio rhan isaf eich coluddyn.

Wedi'r driniaeth

- Gosodir rhwymyn dros eich clwyf, a chaiff ei ddal yn ei le â dilledyn isaf rhwyll.
- Efallai y byddwch yn profi ychydig bach o waedu, cleisio, a chwyddo yn llecyn y llawdriniaeth; dylai hynny leddfu ymhen ychydig ddyddiau, ond gall fod yn anghyfforddus.
- Cewch eich annog i ofyn i'r staff nyrsio am feddyginiaeth lleddfu poen pan fydd angen hynny arnoch, ond mae'n debygol mai dim ond cyffuriau lleddfu poen ysgafn fydd eu hangen arnoch. Bydd yn ddefnyddiol cymryd meddyginiaeth lleddfu poen tua 15-20 munud cyn cael eich gweithio i leddfu unrhyw anesmwythdra y gallech ei brofi.

- Byddwch hefyd yn cael moddion gweithio i feddalu'ch carthion ac i symbylu gweithgarwch y coluddyn, ond efallai na fyddwch yn teimlo'r angen i gael eich gweithio am ddiwrnod neu ddau.
- Bydd angen i chi barhau i gymryd moddion gweithio i feddalu eich carthion, a gallai hynny olygu y gallech ollwng carthion. Mae hyn yn rhywbeth hollol normal ac nid yw'n arwydd bod y llawdriniaeth wedi methu.
- Mae'n debyg y cewch gathetr wrinol (tiwb a saif yn y bledren) am ychydig ddiwrnodau nes gallwch fynd i'r tŷ bach yn annibynnol.
- Byddwch chi'n gallu bwyta ac yfed yn ôl arfer ar ôl deffro pan fydd effeithiau'r anesthetig wedi diflannu.
- Byddwch yn cael hosanau cywasgu a phigiad teneuo gwaed dyddiol (tra byddwch yn yr ysbyty) i leihau'r perygl o gael ceuladau gwaed.
- Fel arfer, byddwch yn cael bath neu gawod y diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth, ac fe wnaiff y dŵr dynnu'r gorchudd oddi ar y briw. Dylech osgoi defnyddio unrhyw beth ond dŵr cynnes wrth olchi, ac ni ddylech ddefnyddio unrhyw fath o sebon ar eich clwyf.
- Bydd golchi'n aml yn lleddfu man y llawdriniaeth, a dylech geisio ymolchi bob tro y byddwch yn cael eich gweithio. Dylech chi hefyd newid y pad dros eich clwyf bob tro y byddwch wedi ymolchi. Bydd y nyrsys yn helpu i newid rhwymynnau yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf.
- Gall defnyddio drych eich helpu i weld a yw eich clwyf yn lân.
- Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn teimlo eu bod yn barod i fynd adref 2-5 diwrnod wedi'r driniaeth.

Ar ôl gadael yr ysbyty

- Efallai y gwnaiff sawl wythnos fynd heibio cyn y gwnewch iachau yn llwyr, a chyn i chi adael, bydd eich nyrs yn dangos i chi sut y dylid gosod rhwymynnau ar y clwyf. Efallai y bydd angen cymorth arnoch gan nyrsys ardal neu rywun arall yn eich cartref os fyddwch yn gallu gwneud hyn eich hun.
- Dylech geisio golchi'r rhan hon o'r corff bob tro y byddwch yn cael eich gweithio am bedair wythnos ar ôl y driniaeth.

- Dylech geisio osgoi cerdded neu eistedd am gyfnodau hir a dylech ailafael mewn gweithgarwch corfforol yn raddol, gan ddechrau trwy gerdded yn ysgafn.
- Mae'n well osgoi nofio oherwydd gall arafu proses iachau'r clwyf a chynyddu'r posibilrwydd o ddal haint.
- Gall y rhan fwyaf o gleifion ailafael mewn gweithgarwch rhywiol 6-8 wythnos ar ôl y llawdriniaeth, ond bydd yn well aros tan ar ôl eich apwyntiad dilynol. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio mwy o hylif ireidio sy'n seiliedig ar ddŵr yn ystod cyfathrach rywiol.
- Efallai y gwnaiff gweithgarwch arferol eich coluddyn ddychwelyd ymhen 6-8 wythnos. Mae'n bwysig sicrhau bod eich carthion mor feddal â phosibl er mwyn osgoi rhwymedd a straenio.
- Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o bobl fod yn absennol o'r gwaith am fwy nag ychydig wythnosau, ond bydd hynny fel arfer yn dibynnu ar beth rydych chi'n ei wneud i ennill eich bara menyn.
- Bydd y rhan fwyaf o bobl yn disgwyl o leiaf bythefnos cyn ailddechrau gyrru. Ni ddylech yrru nes bydd gennych ddigon o nerth ac amser ymateb i allu stopio eich car mewn argyfwng. Dylech gysylltu â'ch cwmni yswiriant cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod eich polisi yn dal yn ddilys.

Apwyntiad dilynol

- Trefnir apwyntiad i gael archwiliad 4 wythnos ar ôl y llawdriniaeth.
- Os na fyddwch yn gallu rheoli eich coluddion yn berffaith, efallai y byddwch yn cael cyngor ynghylch rhywfaint o ymarferion cryfhau neu'n cael cynnig triniaethau eraill. Gallwch gael eich gweld gan ein tîm arbenigol i gael rhagor o gymorth i'ch galluogi i ymgymryd â'r rhain. Ni ddylech roi cynnig arnynt tan ar ôl eich apwyntiad dilynol.
- Os bydd gennych unrhyw broblemau yn ystod y diwrnodau wedi eich triniaeth, cysylltwch â'r ward lle'r oeddech chi'n glaf mewnol.
- Os bydd gennych broblem ar ôl bod gartref am ychydig ddyddiau, gallwch gysylltu ag ysgrifennydd eich llawfeddyg ymgynghorol (dyddiau'r wythnos yn unig, rhwng 09:00 a 16:00) neu dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu nyrs ardal.

Beth yw'r risgiau?

- Caiff rhestr lawn o risgiau a chymhlethdodau ei hesbonio i chi pan fydd y llawfeddyg yn gofyn i chi lofnodi eich ffurflen gydsynio.
- Mae'r risgiau penodol mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â'r llawdriniaeth hon yn cynnwys:
 - Gwaedu: Mae ychydig bach o waedu yn normal wedi'r driniaeth, ac fel arfer, bydd yn diflannu o fewn wythnos.
 - Y clwyf yn ymagor: Prin yw'r problemau a achosir gan hynny, ond efallai y sylwch ar waedu am gyfnod hirach ar ôl y llawdriniaeth. Mewn oddeutu 1 achos o bob 5, gall clwyf yn ymagor fod yn rhywbeth mwy difrifol, ac efallai na fyddwch yn elwa ar y cyfan o lawdriniaeth i gyweirio sffincter y rhefr. Mewn oddeutu 1 achos o bob 20, gall eich anymataliaeth waethygu, ac efallai bydd rhagor o driniaethau yn angenrheidiol.
 - Haint yn y clwyf: Fel yn achos y rhan fwyaf o lawdriniaethau, mae posibilrwydd y caiff eich clwyf ei heintio. Bydd hynny'n gofyn am gwrs hirach o wrthfotigau.
 - Methiant y driniaeth: Ceir tebygolrwydd - 1 mewn 5 - na wnaiff eich llawdriniaeth wella eich symptomau. Os felly, trafodir triniaethau ychwanegol eraill yn ystod eich apwyntiad dilynol.

Beth yw'r gyfradd llwyddiant?

- Mae llawdriniaeth i gyweirio sffincter yr anws yn tueddu i wella symptomau yn achos 7 neu 8 o bob 10 sy'n cael y driniaeth.
- Mae'n bwysig nodi efallai na wnaiff eich symptomau ddiflannu'n llwyr, ac efallai y byddwch yn dal yn teimlo eich bod yn gorfod mynd i'r tŷ bach ar frys, ond enwedig os bydd rhyddni.
- Bydd lefel llwyddiant y llawdriniaeth hon yn lleihau ymhen amser, ac ymhen 10 mlynedd wedi'r driniaeth, bydd symptomau tua 1 claf o bob 2 wedi dychwelyd.
- Os na fyddwch yn gallu rheoli eich coluddion yn dda ar ôl y llawdriniaeth hon efallai y cewch eich cyfeirio i wneud rhagor o ymarferion i helpu i adfer gweithgarwch y cyhyr.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gallech droi at wefan Cymdeithas Llawr y Pelfis:

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**